



Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Polisi Diogelu Plant Anabl

Dyddiad Cadarnhau: 3/7/2017					
Dyddiad Adolygu:1/7/19					
Fersiwn	Dyddiad Gorffen Ymgynghori	Crynodeb o'r Rheswm dros Newid	Awdur	Awdurdodiad	Dyddiad Cyhoeddi
1			FS	BDGC	6/11/17
2		Newidiadau i Weithdrefnau Diogelu Plant Cymru	DL		

Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Pwrpas y Cyfarwyddyd Ymarfer, ac Ar Gyfer Pwy y Mae'r Cyfarwyddyd

- Pa Blant y Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer Hwn yn Berthnasol iddynt?

3. Cyfarwyddyd Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol

- Y Rhesymau Pam y Mae Plant Anabl yn Fwy Agored i Gamdriniaeth
- Beth y Mae Hyn yn ei Olygu o ran Ymarfer?
- Ymwybyddiaeth o Ddangosyddion Posibl Camdriniaeth a/neu Esgeulustod Plant Anabl
- Y Cysylltiad Cychwynnol ac Atgyfeirio
- Ymchwilio i Honiadau o Gamdriniaeth yn Ymwneud â Phlant Anabl
- Trafod Strategaeth
- Ymholiadau ac Aseidiadau Adran 47
- Honiadau fod Gweithiwr neu Wirfoddolwr wedi Cam-drin Plentyn Anabl
- Y Gynhadledd Gychwynnol Diogelu Plant, Cwblhau'r Aseiad, y Cynllun Amddiffyn Plant
- Chynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant
- Opsiynau Cyfreithiol cysylltiedig â Cholli Rhyddid a Phlant a Phobl Ifanc

4. Ymchwil a Thystiolaeth Ystadegol perthnasol i Ddiogelu Plant a Phobl Ifanc Anabl

- Pa Mor Gyffredin yw Camdriniaeth Plant Anabl?
- Pam y Mae Plant Anabl yn Fwy Agored i Gamdriniaeth?
- Gall Agweddau a Rhagdybiaethau Negyddol Arwain at Wahaniaethu Sefydliadol

5. Cyfeiriadau

1. Cyflwyniad

- 1.1 Dylid darllen y cyfarwyddyd ymarfer hwn ochr yn ochr â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan 2019, sy'n nodi sut y dylai pob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol weithio gyda'i gilydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.
- 1.2 Mae'r cyfarwyddyd ymarfer hwn yn ei gwneud yn glir bod gan blant anabl yr un hawliau dynol yn union a phlant nad ydynt yn anabl i fod yn ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod, i gael eu diogelu rhag niwed ac i brofi'r canlyniadau y mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Cymru) yn eu dymuno iddynt. Fodd bynnag, yn achos plant anabl, mae angen gweithredu pellach. Y rheswm dros hyn yw bod plant anabl yn fwy agored i niwed oherwydd agweddau negyddol a mynediad anghyfartal at wasanaethau ac adnoddau, ac oherwydd fod ganddynt o bosibl anghenion ychwanegol o ganlyniad i nam corfforol, synhwyraidd, gwybyddol a/neu gyfathrebu.
- 1.3 Mae'r cyfarwyddyd ymarfer hwn yn sicrhau system ddiogelu gynhwysol a fydd nid yn unig yn diwallu anghenion plant anabl ond hefyd yn gwella ymarfer ar gyfer pob plentyn.
- 1.4 Mae'r cyfarwyddyd ymarfer hwn yn cael ei ategu gan Adran 7 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n gofyn bod pobl sy'n 'arfer swyddogaethau' o dan y Ddeddf roi'r sylw dyledus i'r Confensiwn.
- 1.5 Rhaid annog a hwyluso cyfranogiad mewn ymholiadau a chyfarfodydd diogelu ar bob ffurf, megis Cynadleddau Amddiffyn Plant a Grwpiau Craidd gan roi sylw i unrhyw faterion cysylltiedig â mynediad. Mae'n hollbwysig y clywir **llais y plentyn**. Dylai'r plentyn hefyd dderbyn cynnig gweithredol o eiriolaeth.

2. Pwrpas y Cyfarwyddyd Ymarfer, ac Ar Gyfer Pwy y Mae'r Cyfarwyddyd

Pwrpas y cyfarwyddyd ymarfer hwn yw:

- 2.1 Egluro'r materion penodol sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles plant anabl, a sicrhau bod pawb yn eu deall ac yn gweithredu arnynt
- 2.2 Sicrhau bod yr angen am arbenigedd o ran diogelu a hyrwyddo lles y plentyn fel ei gilydd, yn enwedig mewn perthynas ag anabledd, yn cael ei gydnabod a'i ddwyn ynghyder mwyn i blant anabl dderbyn yr un lefelau o amddiffyniad rhag niwed â phlant nad ydynt yn anabl
- 2.3 Egluro pwysigrwydd hanfodol cyfathrebu gyda phlant anabl, gan gynnwys cydnabod y gall pob plentyn gyfathrebu os gofynnir pethau iddynt yn y modd iawn gan bobl sy'n deall eu hanghenion ac sydd â'r sgiliau i wrando arnynt
- 2.4 Atgyfnerthu hawl plant anabl a'u teuluoedd i gael asesiad trylwyr o'u hanghenion, ynghyd â gwasanaethau sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles plant ac sy'n eu galluogi i fod mor annibynnol â phosibl, gan gynnwys addysg

briodol mewn cyswllt personol, iechyd a chymdeithasol

- 2.5 Atgyfnerthu pwysigrwydd ymagwedd integredig tuag at ddiogelu a hyrwyddo lles plant anabl gydag asesiad cadarn o anghenion y plentyn, yr hyn sy'n bwysig iddynt, capasiti'r rhiant i ymateb i'w hanghenion ynghyd ag amgylchiadau'r teulu ehangach
- 2.6 Sicrhau bod pob asiantaeth yn cydnabod bod diogelu a hyrwyddo lles plant anabln dibynnu ar rannu gwybodaeth yn effeithiol, cydweithredu a rhannu arbenigedd a dealltwriaeth rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol

Pa Blant y Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer Hwn yn Berthnasol Iddynt?

- 2.7 Mae'r cyfarwyddyd ymarfer hwn yn defnyddio diffiniad bras o anabledd fel sydd wedi amlinellu mewn deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd. I ddibenion Adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, unigolyn anabl yw rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymorar eu gallu i gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd arferol. Y mater allweddol yw nid y diffiniad a ddefnyddiwyd ond yn hytrach effaith y gamdriniaeth neu'r esgeulustod ar iechyd a datblygiad plentyn, ynghyd ag ystyriaeth o sut orau i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn yn y dyfodol.
- 2.8 Gellir deall anabledd mewn sawl gwahanol. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth o'r 'model cymdeithasol' o anabledd, sy'n defnyddio'r term anabledd nid i gyfeirio at nam neu gyfyngiadau gweithredol ond yn hytrach i ddisgrifio effeithiau rhagfarn a gwahaniaethu. Dyma'r ffactorau cymdeithasol sy'n creu rhwystrau, yn gwadu cyfleoedd ac yn 'anablu' pobl. Wrth gwrs gall namau plant greu anawsterau gwirioneddol yn eu bywydau. Fodd bynnag yn aml iawn nid cyflyrau neu namau'r plant anabl sy'n achosi'r problemau y maent yn eu hwynebu ond yn hytrach agweddau negyddol, rhagfarn a mynediad anghyfartal ar y pethau sy'n angenrheidiol ar gyfer ansawdd bywyd da.
- 2.9 Nid yw'r cyfarwyddyd ymarfer hwn yn nodi grwpiau penodol o blant anabl. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd cyfathrebu mewn perthynas â diogelu, cyfeirir yn arbennig at blant byddar a phlant a chanddynt anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae plant a chanddynt anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cynnwys y rhai hynny sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu di-eiriau yn ogystal â grŵp ehangach o blant sy'n cael anawsterau wrth gyfathrebu ag eraill. Hwyrach nad ydynt yn gallu mynegi eu hunain yn effeithiol neu'n cael anawsterau o ran deall yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthynt. Yn yr un modd, efallai nad yw'r rhai hynny sy'n gweithio gyda nhw yn deall eu dull o gyfathrebu. Mae llawer o blant yn cyfathrebu'n llwyddiannus gan ddefnyddio dulliau di-eiriau fel iaith arwyddion, ystumiau, llyfrau cyfathrebu neu offer cyfathrebu electronig
- 2.10 Bydd angen i'r rhai hynny sy'n defnyddio'r cyfarwyddyd ymarfer hwn gofio, wrth gyfathrebu gyda phlant anabl, bod gan bawb yr hawl i benderfynu sut y maent eisiau disgrifio eu hunain. Er enghraifft, mae llawer o blant byddar yn dynodi eu hunain fel rhywun byddar, nid anabl

- 2.11 Drwy'r ddogfen hon, mae 'plant' yn golygu 'plant a phobl ifanc'. Fel yn Neddfau Plant 1989 a 2004 yn y drefn honno, ynghyd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, 'plentyn' yw rhywun nad ydynt eto wedi cyrraedd eu deunawfed pen-blwydd. Os yw plentyn wedi cael eu pen-blwydd yn un ar bymtheg, yn byw oddi cartref neu mewn addysg bellach, neu yn yr ysbyty, neu yn y carchar neu sefydliad troseddwy'r ifanc, nid yw hyn yn newid eu statws neu eu hawl i wasanaethau neu amddiffyniad.

3 Cyfarwyddyd Ymarfer ar Gyfer Gweithwyr Proffesiynol

- 3.1 Mae'r adran hon yn cynnig cyfarwyddyd ymarfer ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant anabl. Mae hyn yn cynnwys y rhai hynny sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol i Blant, iechyd, addysg, ysgolion, y blynyddoedd cynnar, gwasanaethau ieuencid, y system cyfiawnder ieuencid, yr heddl, a'r sectorau annibynnol a gwirfoddol. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r risgiau posibl o ran diogelu y gall plant anabl eu profi, ynghyd â'r angen iddynt ystyried y rhain yn eu cysylltiadau dydd i ddydd â phlant anabl.
- 3.2 Mae diogelu lles plant anabl yn gyfrifoldeb ar bawb, ac o ystyried ein bod yn gwybod bod plant anabl yn fwy agored i gamdriniaeth na phlant nad ydynt yn anabl, mae ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol ynghylch diogelu plant anabl a beth yw arfer gorau yn hanfodol.

Y Rhesymau Pam y Mae Plant Anabl yn Fwy Agored i Gamdriniaeth

- 3.3 Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod
- Mae llawer o blant anabl yn fwy tebygol o ddioddef arwahanrwydd cymdeithasol a bod â llai o gysylltiadau allanol na phlant heb anabledau. Mae eu dibyniaeth ar rieni a gofalwyr am gymorth ymarferol gydag anghenion byw o ddydd i ddydd, gan gynnwys gofal personol, yn cynyddu eu risg o fod yn agored i ymddygiad camdriniol.
 - Mae ganddynt lai o allu i wrthsefyll neu osgoi camdriniaeth
 - Efallai y bydd ganddynt anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n ei gwneud yn anodd iddynt ddweud wrth eraill beth sy'n digwydd
 - Hwyrach nad oes ganddynt fynediad at rywun y gallant ymddiried ynddynt i ddweud eu bod wedi cael eu cam-drin
 - Maent yn arbennig o agored i gael eu bwlio a'u bygwth
 - Mae plant anabl sy'n derbyn gofal nid yn unig yn agored i'r un ffactorau â'r rhai y mae pob plentyn sy'n byw oddi cartref yn agored iddynt, maent yn arbennig o agored i gamdriniaeth bosibl oherwydd eu dibyniaeth ychwanegol ar staff preswyl ac ysbyty ar gyfer eu hanghenion gofal corfforol dydd i ddydd.

Beth Mae Hyn yn ei Olygu ar Gyfer Ymarfer?

3.4 Hyn wedi'i grynhoi isod:

- Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol o bob asiantaeth/disgyblaeth fod yn

ymwybodol fod y gred nad yw plant anabl yn cael eu cam-drin, neu gredoau sy'n gwneud yn fach o effaith camdriniaeth ar blant anabl, yn gallu arwain at wadu fod camdriniaeth neu esgeulustod yn digwydd, neu at fethiant i roi gwybod fod hynny'n digwydd. Mae'n hanfodol fod plant anabl sydd mewn perygl neu sydd wedi profi camdriniaeth neu esgeulustod yn cael eu trin â'r un lefel o bryder proffesiynol â phlant nad ydynt yn anabl

- Mae'n bosibl y bydd angen neilltuo adnoddau ac amser ychwanegol os yw ymchwiliad i gamdriniaeth posibl neu honedig am fod yn ystyrion. Mae hwn yn rhagosodiad sylfaenol ac ni ddylid ei anwybyddu ar unrhyw gam yn y broses ddiogelu
- Mae hyfforddiant sylfaenol a chodi ymwybyddiaeth o'r ffaith fod plant anabl yn arbennig o agored i gael eu cam-drin yn hanfodol ar gyfer y rheiny sy'n gweithio gyda phlant anabl, gan gynnwys staff ategol fel gyrwyr bysiau, cynorthwyr gofal, hebryngwyr a chynorthwyr personol. Rhaid annog unigolion i roi gwybod am bryderon ynghylch diogelu ar bob lefel o gysylltiad proffesiynol, ac mae rhannu gwybodaeth fanwl-gywir yn ddi-oed yn hanfodol. Ni ddylai nam y plentyn dynnu oddi wrth yr angen am asesiadau amlasiantaeth buan o angen sy'n ystyried y rhesymau sylfaenol pan y gallai'r plentyn o bosibl fod mewn perygl.
- Lle honnir fod trosedd wedi'i chyflawni, mae'n rhaid i'r heddlu drin unrhyw ymchwiliad mewn modd sensitif ac yn unol â chanllawiau Sicrhau'r Dystiolaeth Orau Mewn Achosion Troseddol
- Mae'n rhaid sicrhau nid yn unig bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol (os nad ydynt eisoes) o ba mor agored y mae eu plant i gamdriniaeth neu esgeulustod, ond hefyd eu bod yn ymwybodol o'u rôl yn y broses ddiogelu
- Mae sicrhau mynediad at eiriolaeth yn bwysig i'r plentyn a'r rhieni/gofalwyr yn ystod y broses ddiogelu.

Ymwybyddiaeth o Ddangosyddion Posibl Camdriniaeth a/neu Esgeulustod Plant Anabl

Mae'n rhaid i bob ymarferwr fod yn ymwybodol o ddangosyddion posibl camdriniaeth a/neu esgeulustod plant anabl

3.5 Er y gall weithiau fod yn amlwg ar unwaith fod plentyn nad yw'n anabl wedi dioddef niwed arwyddocaol, nid dyma'r achos bob amser ac yn aml mae angen ymchwiliadau helaeth. Lle bo pryderon diogelu am blentyn anabl, mae angen cynyddu ymwybyddiaeth o ddangosyddion posibl camdriniaeth a/neu esgeulustod, gan fod y sefyllfa'n aml yn fwy cymhleth. Fodd bynnag, mae'n hanfodol, wrth ystyried a yw plentyn anabl wedi cael ei gam-drin a/neu ei esgeuluso, nad yw'r anabledd yn rhwystro neu'n atal ymchwiliad priodol i bryderon amddiffyn plant. Dylid gweithredu mewn ymateb i unrhyw bryderon am ddiogelwch a lles plentyn anabl yn yr un modd ag y gweithredir mewn perthynas â phlant nad ydynt yn anabl, fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

3.6 Wrth ymgymryd ag asesiad (ac ystyried a oes arwydd o niwed arwyddocaol) dylai gweithwyr proffesiynol bob amser ystyried natur anabledd plentyn. Mae'r canlynol yn ddangosyddion camdriniaeth neu esgeulustod posibl:

- Gall clais ar ran o'r corff na fyddai'n achosi unrhyw bryder gyda phlentyn sy'n gallu cerdded, er enghraifft ar y grimog, fod yn rhywbeth i bryderu yn ei gylch os nad yw'r plentyn yn gallu symud llawer
- Ddim yn cael digon o gymorth i fwyta sy'n arwain at ddiffyg maeth
- Trefniadau gwael ar gyfer defnyddio'r toiled
- Diffyg ysgogiad
- Defnyddio ataliaeth yn ormodol neu heb gyfiawnhad
- Trin rhywun yn gas, camau eithafol i addasu ymddygiad e.e. peidio rhoi diod, meddyginiaeth, bwyd neu ddillad
- Amharodrwydd i geisio dysgu dull plentyn o gyfathrebu
- Offer nad yw'n ffitio'n dda e.e. caliperau, byrddau cysgu, sblintiau amhriodol; camddefnyddio arian plentyn
- Gweithdrefnau mewnwthiol diangen neu sy'n cael eu cyflawni yn erbyn ewyllys y plentyn

3.7 Gall rhai o'r ymddygiadau uchod fod yn droseddau. Er enghraifft, gellid dosbarthu camddefnyddio meddyginiaeth i reoli ymddygiad, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, yn ymosodiad ac yn groes i Ddeddf Meddyginiaethau 1968 neu'n groes i Deddf Safonau Gofal 2000. Yn yr un modd, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall ataliaeth amhriodol, sancsiynau, codi cywilydd ar blentyn, bygwth, cam-drin geiriol, cam-drin ariannol neu anwybyddu anghenion i gyd fod yn droseddau.

Os nad yw plentyn sydd â symudiad breichiau a dwylo cyfyngedig yn cael digon o amser i fwyta cinio digonol, gallai hyn arwain at i'r plentyn fod yn llwglyd neu'n sychedig. Os mai dim ond unwaith y mae hyn yn digwydd efallai na fydd yn achosi unrhyw wir niwed, ond os yw'n digwydd dro ar ôl tro dros ddyddiau neu wythnosau gall gael effaith arwyddocaol.

Gellir cymharu tynnu'r batris allan o gadair olwyn drydan er mwyn cyfyngu ar ryddid plentyn am ddim rheswm heblaw er hwylustod staff, â chloi plentyn sydd ddim yn anabl mewn ystafell neu glymu eu coesau.

3.8 Mae'n bosibl y bydd rhai gweithwyr proffesiynol ei chael yn fwy anodd cydnabod/gweld dangosyddion camdriniaeth neu esgeulustod, neu fod yn amharod i weithredu arnynt mewn perthynas â phlant anabl oherwydd nifer o ffactorau nad ydynt efallai'n ymwybodol eu bod yn seilio'u hymatebion arnynt. Gallai'r rhain gynnwys:

- Gor-uniaethu gyda rhieni/gofalwyr plentyn a bod yn gyndyn o dderbyn fod camdriniaeth neu esgeulustod yn digwydd neu wedi digwydd, neu ei weld fel rhywbeth y gellir ei briodoli i'r straen a'r anawsterau a brofir wrth ofalu am blentyn anabl
- Diffyg gwybodaeth am effaith anabledd ar y plentyn
- Diffyg gwybodaeth am y plentyn, e.e. ddim yn gyfarwydd â'u hymddygiad arferol
- Ddim yn gallu deall dull cyfathrebu'r plentyn
- Cymysgu ymddygiadau a allent fod yn arwydd fod y plentyn yn cael ei gam-

- drin ag ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag anabledd y plentyn
- Gwadu rhywioldeb plentyn
- Gall ymddygiad, gan gynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol neu hunan-niweidio, fod yn arwydd o gamdriniaeth
- Bod yn ymwybodol y gall rhai cymhlethdodau iechyd/meddygol ddylanwadu ar y modd y mae symptomau'n amlygu eu hunain neu'n cael eu dehongli. Er enghraifft, mae rhai cyflyrau arbennig yn achosi cleisio heb reswm neu esgyrn brau, sy'n golygu eu bod yn torri'n amlach

3.9 Dylai pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant anabl fod yn effro i'r dangosyddion camdriniaeth uchod a'u cymryd i ystyriaeth fel sy'n briodol os oes ganddynt bryderon am les plentyn anabl. Fodd bynnag, mae'r dangosyddion hyn yn arbennig o berthnasol i'r rhai hynny sy'n cynnal ymchwiliadau diogelu a/neu droseddol.

Atal

3.10 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn creu dyletswydd strategol ac ymarferol mewn perthynas â gwasanaethau ataliol. Ar lefel strategol, mae ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddyletswydd i asesu maint yr angen am ystod o wasanaethau ataliol ynghyd â'u lefel (adran 14). Ar y lefel ymarferol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu / trefnu darpariaeth gwasanaethau a fydd yn cyfrannu tuag at atal / oedi / lleihau anghenion am ofal a chymorth; lleihau effaith eu hanabledd ar yr unigolyn anabl; helpu i atal pobl rhag dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, ynghyd â galluogi pobl i fyw eu bywydau mor annibynnol â phosibl

Y Cysylltiad Cychwynnol ac Atgyfeirio

3.11 Os oes gan weithiwr proffesiynol bryderon fod plentyn anabl yn cael ei gamdrin neu ei esgeuluso, dylent ddilyn polisi a gweithdrefnau eu hasiantaeth eu hunain ar gyfer gwneud atgyfeiriad diogelu i'r Adran Gofal Cymdeithasol Plant. Yr hyn sydd o'r pwys mwyaf fodd bynnag yw rhannu pryderon o'r fath ar y cyfle cyntaf, naill ai gyda rheolwr priodol neu gyda'r aelod staff dynodedig â chyfrifoldeb am ddiogelu o fewn yr asiantaeth/ darparwr gwasanaeth, fel y gellir gwneud atgyfeiriad yn ddi-oed

3.12 Ni ddylai petruso na fydd atgyfeiriad at asiantaeth statudol yn cael ei gymryd o ddifri neu y gallai pryderon am les plentyn brofi i fod yn ddi-sail atal unigolion rhag gwneud atgyfeiriad

Mae'n anodd i unrhyw blentyn roi gwybod eu bod yn cael eu camdrin. I blentyn anabl gall gwneud hynny fod yn arbennig o anodd gan ei bod yn bosib nad oes ganddynt y modd i gyfathrebu am eu profiad(au) o gamdriniaeth. I rai plant anabl sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, mae rhoi gwybod eu bod wedi cael eu camdrin, eu hesgeuluso neu eu trin yn wael yn ddibynnol ar gamau gweithredu cadarnhaol ar ran gweithwyr proffesiynol. Felly, mae o'r pwys mwyaf fod pryderon o'r fath yn cael eu pasio ymlaen ar asiantaeth statudol

3.13 Fodd bynnag, i'r rhai hynny sy'n derbyn y cysylltiadau a'r atgyfeiriadau

cychwynnol mewn perthynas â phlentyn anabl, mae pwyntiau ychwanegol y mae angen eu hystyried ar y cam cynnar hwn.

Y rhain yw:

- Y posibilrwydd y bydd angen adnoddau ychwanegol, yn enwedig os oes gan blentyn anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, er mwyn sicrhau y gellir cynnal asesiad priodol.
- Yr arfer gorau a argymhellir felly yw y dylai pryderon/atgyfeiriadau diogelu mewn perthynas â phlant anabl gael eu hasesu gan ymarferwyr sy'n brofiadol ac yn gymwys ym maes gwaith amddiffyn plant, gyda mewnbwn ychwanegol gan y gweithwyr proffesiynol hynny a chanddynt wybodaeth ac arbenigedd mewn gweithio gyda phlant anabl.
- Fel gyda phlant nad ydynt yn anabl, nid fydd bob amser yn amlwg o'r cyswllt cyntaf â theulu bod unrhyw fater amddiffyn plant sydd angen sylw. Bydd gweithwyr proffesiynol, y teulu, y plentyn ac eraill yn pwysleisio problemau neu anawsterau eraill, ac mae'n bosibl na fydd yr angen i ddiogelu rhag niwed bob amser yn amlwg. Dylai ymarferwr sy'n derbyn adroddiad/atgyfeiriad felly fynd ati'n systematig i ddarganfod mwy am yr anghenion a'r amgylchiadau a ysgogodd y cyswllt â nhw.

Mae'r canlynol yn grynodedb o astudiaeth achos gyfansawdd yn ymwneud â bachgen anabl a oedd yn profi esgeulustod yn y cartref sy'n dangos rhai o'r meini tramgwydd ychwanegol sy'n gallu rhwystro gweithredu proffesiynol llwyddiannus.

Cynhaliwyd Adolygiad Achos Difrifol ar ôl i fachgen 12 oed gael ei dderbyn i lety wedi iddo dioddef esgeulustod difrifol. Bu nifer fawr o weithwyr proffesiynol mewn cysylltiad â'r teulu ac roedd eu barn ar ei ddiagnosis yn amrywio. Roedd y plentyn wedi bod yn cael ei addysgu gartref ers pan oedd yn wyth oed ac o'r herwydd yn gymdeithasol ynysig. Rhoddwyd cryn ffocws ar drin y bachgen fel plentyn anabl, gan ganolbwyntio ar ei ymddygiad, gydag ychydig iawn o asesu o ran y gofal yr oedd yn ei gael o ddydd i ddydd. Asesodd sawl asiantaeth fod y bachgen angen gofal y tu allan i'r cartref ond bu oedi o flwyddyn cyn i hynny ddigwydd. Yn y diwedd, mynnodd uwch weithiwr ieuchyd proffesiynol fod y plentyn yn cael ei roi mewn gofal maeth.

Ymhlith y pwyntiau dysgu allweddol oedd: na ddylid trin plentyn yn wahanol oherwydd eu hanabledd; bod lle i herio pŵer rhieni; yr angen am weithiwr proffesiynol arweiniol; yr angen i weithwyr proffesiynol fod yn ddigon hyderus i herio barn ei gilydd a'r angen am hyfforddiant ar sut i adnabod esgeulustod

- 3.14 Fel yn achos atgyfeiriadau diogelu mewn perthynas â phlant nad ydynt yn anabl, ble bynnag y bo modd mae'n bwysig casglu cymaint o wybodaeth fanwl-gywir â phosibl, er mwyn deall yn iawn beth yw'r cyd-destun ac er mwyn gallu asesu'r tebygolrwydd o niwed i'r plentyn. Mae'n bosibl y bydd angen asesiad cywir o ddealltwriaeth plentyn a'i alluoedd ieithyddol gan riant, athro a therapydd lleferydd ac iaith, ac yna cael cyngor ynghylch cyfathrebu neu weithio gyda chymorth rhywun sy'n adnabod y plentyn yn dda. Yn ogystal, dylid ystyried y cwestiynau isod a'u gofyn wrth dderbyn atgyfeiriad ynghylch plentyn anabl:

- Beth yw'r anabledd, yr angen arbennig neu'r nam sy'n effeithio ar y plentyn?
- Gofynnwch am ddisgrifiad o'r anabledd neu'r nam: er enghraifft gallai 'anabledd dysgu' olygu sawl peth ac nid yw'n dweud llawer wrthyfch am y plentyn na'u hanghenion
- Os nad ydych yn gwybod sut i sillafu gair sy'n disgrifio nam neu gyflwr, gofynnwch sut i'w sillafu. Bydd hyn yn bwysig os oes angen gwneud ymholiadau pellach am sut y gellid disgwyl i'r cyflwr effeithio'r plentyn
- Sut mae'r anabledd neu'r nam yn effeithio'r plentyn o ddydd i ddydd?
- Sut mae'r plentyn yn cyfathrebu? Os dywed rhywun nad yw'r plentyn yn gallu cyfathrebu, gofynnwch y cwestiwn "Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod/ei bod eisiau rhywbeth?"
- Sut fydd o/hi'n dangos ei fod/bod yn hapus neu'n anhapus?
- A yw'r anabledd neu'r cyflwr wedi cael asesiad/diagnosis meddygol?

Ymchwilio i Honiadau o Gamdriniaeth yn Ymwneud â Phlant Anabl

- 3.15 Lle bo achos rhesymol i gredu fod plentyn anabl yn dioddef, neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol: "Tra bo'r cwestiwn a yw niwed yn arwyddocaol yn troi o amgylch iechyd neu ddatblygiad y plentyn, rhaid cymharu iechyd neu ddatblygiad y plentyn â'r hyn y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl o blentyn tebyg' (Adran 31(9), Deddf Plant 1989.)"

Diffinnir niwed (adran 3.1 Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru 2019) fel:

- Camdriniaeth sy'n cynnwys cam-drin rhywiol, esgeulustra, cam-drin emosiynol a cham-drin seicolegol
- Amhariad ar iechyd corfforol neu feddyliol (yn cynnwys mathau a ddiodefir yn sgil gweld neu glywed unigolyn arall yn dioddef camdriniaeth).
- Amhariad ar ddatblygiad corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol (yn cynnwys yr amhariad a ddiodefir o weld neu glywed unigolyn arall yn dioddef camdriniaeth).

Mae risg i blentyn sydd ag anghenion gofal a chymorth ac sy'n profi (neu mewn perygl o brofi) camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion gofal a chymorth hynny ai peidio)(Deddf GCaLI (Cymru) 2014 – Adran 130(4))

Trafodaeth Strategaeth

- 3.16 Mae plant anabl yn destun yr un gweithdrefnau ar gyfer cychwyn cyfarfodydd strategaeth ag y mae plant nad ydynt yn anabl

Os oes digon o bryder bod plentyn mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol, dylid trefnu trafodaeth strategaeth cyn gynted â phosib, ac o fewn 24 awr fan bellaf i'r adeg y gwnaed y penderfyniad (Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru 2018)

Ymholiadau ac Aseidiadau Adran 47

- 3.17 Y broses asesu yw'r modd y mae ymholiad adran 47 yn cael ei gynnal. Mae

Adran 47 o Ddeddf Plant 1989 yn datgan fod gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i ymchwilio pan fo lle rhesymol i amau fod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed arwyddocaol. Bydd yr ymholiad adran 47 yn cynnwys asesiad gwrthrychol o anghenion y plentyn, gan gynnwys y tebygolrwydd o gamdriniaeth neu esgeulustod a'r angen i'w amddiffyn, yn ogystal â gallu'r teulu i ddiwallu'r anghenion hynny.

3.18 Wrth ymgymryd ag ymchwiliadau/asesiadau i honiadau o gamdriniaeth sy'n ymwneud â phlant anabl, mae angen i ymarferwyr roi sylw i'r ystyriaethau canlynol:

- Wrth gynnal ymholiadau adran 47, y cyfrifoldeb cyntaf, fel yn achos unrhyw ymchwiliad i honiadau o gamdriniaeth a/neu esgeulustod, yw sicrhau bod y plentyn yn ddiogel
- Lle bo honiadau o gamdriniaeth mewn perthynas â phlentyn anabl, mae'n rhaid ystyried anghenion diogelu unrhyw frodyr a chwiorydd sy'n byw yng nghartref y teulu hefyd. Yn achos honiadau o gamdriniaeth lle mai'r plentyn anabl yw'r cyflawnwr honedig, mae'n rhaid trin ymchwiliadau mewn modd arbennig o sensitif. Dylid dangos dyletswydd gofal i'r dioddefwr a'r cyflawnwr honedig.
- ran unrhyw ymholiadau sydd wedi'u cynllunio neu eu cyflawni, dylid eu cynnal mewn modd sensitif a gyda dealltwriaeth wybodus o anghenion ac anabledd plentyn anabl. Mae hyn yn cynnwys ystyried materion fel lleoliad y cyfweliad/au; anghenion gofal y plentyn anabl; a oes angen offer neu gyfleusterau ychwanegol; pwy ddylai gynnal y cyfweliad ac a oes angen cynnwys rhywun a chanddynt sgiliau arbenigol yn y dull cyfathrebu a ffefrir gan y plentyn.
- Fel yn achos pob ymholiad adran 47, mae'r angen am gofnodi gwybodaeth mewn modd cywir, manwl a chyfredol yn hanfodol
- Drwy gydol yr holl drafodaethau (gan gynnwys trafodaethau strategaeth, ymholiadau/asesiadau adran 47, y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol ac unrhyw gynadleddau adolygu amddiffyn plant dilynol), rhaid i bob darparwr gwasanaeth sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n glir gyda'r plentyn anabl a'i deulu, a gyda'r naill a'r llall, gan fod tebygolrwydd y bydd mwy o weithwyr proffesiynolyn gysylltiedig â phlentyn anabl nag yn achos plentyn nad yw'n anabl
- Rhaid rhoi'r flaenoriaeth fwyaf i'r dull cyfathrebu a ffefrir gan y plentyn anabl ar gyfer deall pethau a mynegi ei hun, a lle bo gan blentyn anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan gynnwys y rheiny a chanddynt ddulliau cyfathrebu di-eiriau a phlant byddar, bydd angen gwneud trefniadau i sicrhau y gall y plentyn gyfathrebu am unrhyw gamdriniaeth neu esgeulustod y mae'n ei brofi, ynghyd â chyfleu ei farn a'i deimladau
- Os oes gan rieni plentyn anabl anabledd eu hunain, rhaid trefnu hefyd i ddarparu ar gyfer eu hanghenion hwy drwy gydol y broses ymchwilio/asesu
- Dylid canfod nifer y gofalywyr sy'n ymwneud â'r plentyn yn ogystal â lle y darperir y gofal a phryd. Gallai rhwydwaith plentyn anabl o ofalwyr gynnwys gofalywyr maeth sy'n rhoi seibiannau byr, cyfeillion gwirfoddol, gwarchodwyr, cynorthwywyr personol, gweithwyr cymorth cymunedol, staff gofal preswyl, ymwelwyr annibynnol a chynorthwywyr cymorth dysgu
- Mae coladu gwybodaeth feddygol ynghylch anghenion iechyd y plentyn yn

- bwysig gan y gall ddylanwadu ar ganlyniad unrhyw ymholiad/ymchwiliad
- Lle bo angen archwiliad meddygol, rhaid rhoi ystyriaeth i'r gweithiwr meddygol proffesiynol mwyaf priodol a ddylai ymgymryd â'r archwiliad, ynghyd â'r lleoliad, yr amseriad a gallu'r plentyn i ddeall pwrpas y weithdrefn feddygol
 - Lle bydd ymchwiliad gan yr heddlu i honiadau o gam-drin neu esgeuluso plentyn anabl, ni ddylai'r sawl sy'n cynnal ymchwiliadau o'r fath ragdybio gallu'r plentyn i roi tystiolaeth, a dylid ymgymryd â phob ymchwiliad o'r fath yn unol â'r cyfarwyddyd ymarfer Sicrhau'r Dystiolaeth Orau Mewn Achosion Troseddol: Canllawiau ar dystion sy'n agored i niwed neu'n sy'n cael eu bygwth, gan gynnwys plant (Y Swyddfa Gartref, 2000), sy'n cynnwys cyfarwyddyd penodol mewn perthynas â phlant anabl
 - Yn dilyn unrhyw ymholiadau adran 47, dylid cydnabod yr angen i'r plentyn anabl a'u teulu gael cymorth parhaus. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae plant anabl wedi datgelu eu bod wedi cael eu cam-drin. Nid yw'r angen am wasanaethau therapiwtig ar gyfer plant anabl, yn dilyn profiadau o'r fath, bob amser yn cael ei adnabod. Gellir mynegi emosiynau mewn dulliau eraill, er enghraifft drwy hunan-niweidio neu ymddygiad heriol
 - Yn ogystal, dylid ystyried anghenion pobl anabl sydd wedi cael eu cam-drin fel plant, o ran gallu cael mynediad i wasanaethau therapiwtig

Cynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant, Cwblhau'r Asesiad, y Cynllun Amddiffyn Plant a Chynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant

- 3.19 Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru 2019 yn nodi'n glir y gweithdrefnau sydd i'w dilyn, a dylid glynu wrthynt lle bo pryderon amddiffyn plant cysylltiedig â phlentyn anabl.

Plant Mewn Gofal Preswyl ac Ysgolion Preswyl

- 3.20 Mae plant sy'n byw oddi cartref yn arbennig o agored i niwed, gan y gall fod llai o gysylltiad teuluol oherwydd y pellter, neu fod cymorth teuluol yn wan oherwydd chwalfa deuluol. Yn ogystal, mae plant yn agored i gryn nifer o ofalwyr yn y lleoliadau hyn, sydd unwaith eto'n cynyddu'r risg o gamdriniaeth.

O ran gofal preswyl ac ysgolion yn ardal Gogledd Cymru, mae'n rhaid i bob sefydliad fod â'r canlynol yn eu lle:

- Polisi diogelu ac amddiffyn plant clir sy'n amlygu pa mor agored i niwed y mae plant anabl;
- Cyfarwyddyd clir ar y defnydd o feddyginiaeth, ynghyd â bwyta ac yfed, gofal personol;
- Cyfarwyddyd clir ar ymyrraeth gorfforol gyfyngol (ataliaeth), sy'n diffinio'r hyn sy'n dderbyniol ac nad yw'n dderbyniol;
- Asesiadau risg sy'n amlinellu'n glir sut y bydd anghenion y plentyn o ran gofal, goruchwyliaeth a diogelwch yn cael eu diwallu, a pha ddulliau ataliaeth a rheoli y gellir eu caniatáu;
- Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar Ddiogelu Plant Anabl;
- Mae gweithdrefn glir yn ei lle ynghylch honiadau yn erbyn staff sydd wedi'i chynnwys yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ac yng

Nghyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

Honiadau o Gamdriniaeth gan Weithiwr neu Wirfoddolwr yn Erbyn Plentyn Anabl

- 3.21 Yn achos honiadau yn erbyn gweithiwr neu wirfoddolwr yn ymwneud â phlentyn anabl, mae angen rhoi polisïau a gweithdrefnau diogelu plant yr asiantaeth neu Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2019 (Rhan 5) ar waith, yn unol â gweithdrefnau disgyblu, lle bo'n briodol

Pobl Ifanc Anabl sy'n Cael eu Cyhuddo o Gamdriniaeth

- 3.22 Mae astudiaethau o droseddwyd rhyw sy'n iau na 18 oed wedi canfod bod rhwng eu traean a'u hanner yn blant a phobl ifanc ag anabledau dysgu. Yn ogystal, mae'r grŵp hwn wedi'i or-gynrychioli ymhlith y rheiny sy'n cael triniaeth ar gyfer ymddygiad rhywiol niweidiol. Nid yw'r rheswm am hyn yn glir, ond un ffactor perthnasol yw bod llawer o'r cyflawnwyr ifanc wedi cael eu cam-drin eu hunain – ac mae plant a phobl ifanc sydd ag anabledau dysgu yn arbennig o agored i'w cam-drin. Mae ymyriadau llwyddiannus gyda chamdrinwyr ifanc yn gofyn am driniaeth arbenigol, ac mae'n bwysig nad yw pobl ifanc anabl yn cael eu gwrthod rhag cael mynediad i driniaeth o'r fath. Bydd asesiadau amlasiantaeth a chydweithio'n arbennig o bwysig ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc

Opsiynau Cyfreithiol o Ran Colli Rhyddid a Phlant neu Bobl Ifanc

Mae'r tabl isod yn nodi'r amgylchiadau lle gellir defnyddio'r opsiynau cyfreithiol a ganlyn mewn achosion lle mae plentyn o bosibl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid.

Oed y plentyn neu'r unigolyn ifanc	Cydsyniad unigolyn â chyfrifoldeb riant	Y Llys Gwarchod	Deddf Plant 1989, adran 25 gorchymyn diogel	Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS)	Deddf Iechyd Meddw I 1983	Yr Uchel Lys (awdurdodaeth ymlynol)
15 neu iau	Ie – ond gweler y nodiadau isod	Na	Ie – ond gweler y nodiadau isod	Na	Ie – ond mae angen i'r plentyn gyflawni meini prawf y Ddeddf IM a rhaid i'r lleoliad fod wedi'i awdurdodi i ddal y plentyn o dan y	Na Mae hwn yn opsiwn wrth gefn pan nad oes rhai eraill ar gael.

					Ddeddf IM.	
16-17	Na	le – mewn unrhyw leoliad os oes gan yr unigolyn ddiffyg capasiti	Na	Na	le – ond mae angen i'r plentyn gwrdd â'r meini prawf ar gyfer y Ddeddf IM a rhaid i'r lleoliad fod wedi'i awdurdodi i ddal y plentyn o dan y Ddeddf IM	le Mae hwn yn opsiwn wrth gefn pan nad oes rhai eraill ar gael.
18 a throsodd	Na.	le – Mewn unrhyw leoliad (nad yw'n dod o dan DoLS) os oes gan yr unigolyn ddiffyg capasiti	Na	le - ond dim ond os yw'r unigolyn yn Byw mewn cartref gofal neu ysbyty a bod ganddynt ddiffyg capasiti	le – ond Mae angen i'r unigolyn gyflawni'r meini prawf ar gyfer y Ddeddf IM a rhaid i'r lleoliad fod wedi'i awdurdodi i ddal y plentyn o dan y Ddeddf IM	le - mae hwn yn opsiwn wrth gefn pan nad oes rhai eraill argael.

Nodiadau ar y tabl:

Cydsyniad rhieni - os nad yw plentyn iau na 16 o dan Orchymyn Gofal ffurfiol, mewn rhai achosion, gall Awdurdod Lleol ddibynnu ar gydsyniad rhieni os rhoddir hwnnw wrth arfer cyfrifoldeb rhieni'n briodol. Yn dechnegol, o fewn y gyfraith, byddai caniatâd o'r fath yn golygu nad yw trefniadau gofal cyfyngol yn golled rhyddid i ddibenion erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Os yw plentyn o dan 16 sy'n cael ei letya yn destun gorchymyn gofal dros dro neu orchymyn gofal, mae'n dra annhebygol y gallai rhiant gydsynio, ac yn yr amgylchiadau hynny, ni all awdurdod lleol ganiatáu i rywun golli rhyddid felly mae angen i'r llys awdurdodi hynny (*A Local Authority v D and others [2015] EWHC 3125 (Fam)*). Mae gorchymyn diogel o dan adran 25 o Ddeddf Plant 1989, wedi'i ategu â'r angen i atal niwed arwyddocaol, yn berthnasol dim ond i blant sy'n derbyn gofal (o dan orchymyn gofal neu wedi'u lletya'n wirfoddol o dan adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014) a lle mai pwrpas y llety yw peri i'r unigolyn golli rhyddid. Pe bai'r plentyn yn cael ei letya mewn cartref plant (cartref plant cofrestredig, cartref cymunedol, neu gartref gwirfoddol), byddai ar y cartref angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd o'r fath. Yn ogystal, mae angen cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plentyn o dan 13 oed.

4. Ymchwil a Thystiolaeth Ystadegol ar Ddiogelu Plant a Phobl

Ifanc Anabl Pa Mor Gyffredin yw Cam-drin Plant Anabl?

- 4.1 Mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu bod plant anabl yn fwy agored i gamdriniaeth na phlant nad ydynt yn anabl. Casgliad astudiaeth fawr yn America pan archwiliwyd cofnodion dros 40,000 o blant, oedd bod plant anabl 3.4 gwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso na phlant nad ydynt yn anabl. Roedd plant anabl 3.8 gwaith yn fwy tebygol o gael eu hesgeuluso. Roeddynt 3.8 gwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin yn gorfforol, 3.1 gwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin yn rhywiol a 3.9 gwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin yn emosiynol. Yn gyffredinol, daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod 31% o blant anabl wedi cael eu cam-drin, o gymharu â chyfradd achosion o 9% ymhlith y boblogaeth o blant nad ydynt yn anabl.
- 4.2 Dangosodd astudiaethau ar raddfa lai yn yr UD bod lefelau sylweddol o gamdriniaeth ymhlith plant byddar¹ a phlant ag Awtistiaeth a Syndrom Asperger
- 4.3 Mae ymchwil yn y DU yn gyfyngedig ond mae nifer o astudiaethau wedi dangos lefelau tebyg o gamdriniaeth ac esgeulustod â'r hyn a ganfuwyd yn yr UD². Canfuwyd lefelau uwch o gamdriniaeth pobl ifanc anabl o gymharu â'u cyfoedion heb fod yn anabl mewn astudiaeth o 3000 o bobl ifanc 18 –24 oed
- 4.4 O ran cam-drin rhywiol gan bobl yr oedd y plentyn yn eu hadnabod ond nad oeddent yn aelodau o'u teulu, roedd 22% yn dweud eu bod yn profi camdriniaeth rywiol o gymharu â 15% o'r sampl yn ei gyfanrwydd

- 4.5 Mae diffyg data lleol a chenedlaethol cyffredinol am blant anabl sy'n destun gweithdrefnau diogelu plant. Cynhaliodd Cooke a Standen arolwg o awdurdodau lleol ledled y DU a chanfod mai ddim ond traean o awdurdodau oedd â chanllawiau penodol ar gyfer diogelu plant anabl, a dim ond 50% oedd yn cofnodi a oedd gan blentyn a oedd yn cael ei gam-drin anabledd. Er, yn ôl y sôn, bod 50% o awdurdodau'n casglu'r data hwn, dim ond deg a oedd yn gallu darparu ffigyrau ar nifer yr achosion o blant anabl a oedd yn cael eu cam-drin. Roedd ymarfer yn amrywiol iawn. Casgliad dadansoddiad manwl o un awdurdod (Morris, 1999)³ oedd, er bod plant anabl yn cyfrif am ddim ond 2% o'r boblogaeth leol o blant, roeddynt yn cyfrif am 10% o'r plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Yn ogystal, ychydig iawn o ddata sy'n bodoli ynghylch nodweddion plant a fu'n destun adolygiadau achosion difrifol. Canfyddiad Brandon *et al* (2009) oedd bod 14 o blant (8%) o'u sampl llawn o 189 o blant a fu'n destun adolygiad achos difrifol, yn anabl cyn y digwyddiad a arweiniodd at yr adolygiad achos difrifol. Mae'r ffigwr hwn ychydig yn uwch na'r ffigwr o 8 plentyn (5%) yn yr astudiaeth flaenorol o 161 o blant (Brandon *et al* 2008)
- 4.6 O'r 14 o blant yn astudiaeth 2009, roedd y rhai y nodwyd fod ganddynt anabledd cyn y digwyddiad yn amrywio o ran oedran o 2 fis i 17 mlwydd oed. Roedd gan nifer fechan o deuluoedd fwy nag un plentyn ag anabledd neu anghenion iechyd cymhleth ac roedd yr anawsterau yr oedd eu teuluoedd yn eu cael o ran ceisio ymdopi ag anghenion cymhleth y plant yn amlwg. Roedd gan blentyn un ar ddeg oed a fu farw pan oedd mewn gofal maeth anableddau difrifol ac anghenion iechyd cymhleth ond roedd ganddo hefyd anafiadau anesboniadwy. Mae un o'r nifer fach o achosion lle lladdodd rhiant eu hunain a'u plentyn yn cynnwys mam a achosodd ei marwolaeth ei hun a marwolaeth ei mab anabl, ac mae un achos o hunanladdiad ymhlith plant yn eu harddegau yn cynnwys merch ifanc â syndrom Asperger. Roedd dyn ifanc arall a chanddo anhwylder sbectrwm awtistig ac anableddau dysgu wedi cyflawni niwed i blentyn⁴
- 4.7 Gall diogelu plant anabl ymwneud â nifer fawr o weithwyr proffesiynol, roedd adolygiad achos difrifol yn 2014 wedi amlygu nifer y gweithwyr proffesiynol a all fod yn gysylltiedig, ynghyd â'r pwysau y gall hyn ei gael ar y teulu. Awgrymir y dylai gweithiwr proffesiynol arweiniol fod yn gysylltiedig o dan yr amgylchiadau hyn, ac mae'n bwysig cofio y dylai asiantaeth neu ymarferwr arweiniol gydlynu'r ddynnameg gymhleth a heriol o fewn teuluoedd [Kingston & Richmond Safeguarding Children's Board - Case Review](#)

Pam y mae Plant Anabl yn Fwy Agored i Gamdriniaeth?

- 4.8 Gall agweddau a rhagdybiaethau o fewn cymdeithas ac ymhlith y rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant arwain at farn nad yw camdriniaeth y digwydd i blant anabl, ac mae hyn yn ei dro'n taseilio diogelwch plant anabl ar bob lefel. Amlygodd ymchwil gan Kennedy (1992)⁶ y gred anghywir fod plant anabl yn llai tebygol o gael eu niweidio gan gamdriniaeth na phlant eraill. Gall peidio â chydabod a hyrwyddo hawliau dynol plant anabl arwain at ystyried fod arferion camdriniol yn dderbyniol. Er enghraifft, byddai clymu neu gloi plentyn

heb anabledd mewn ystafell yn cael ei ystyried yn gamdriniaeth ond mae'n bosib y byddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol pe bai'r plentyn yn anabl.

Gall Agweddau a Rhagdybiaethau Negyddol Arwain at Wahaniaethu Sefydliadol

- 4.9 Mae agweddau ynghylch anabledd yn ffactor cyfrannol yn y diffyg hysbysu ynghylch cam-drin plant anabl. Mae amcangyfrifon yn awgrymu mai dim ond un mewn deg ar hugain achos o gam-drin pobl anabl yn rhywiol sy'n cael ei adrodd, o gymharu ag un mewn pump ymhlith y boblogaeth heb fod yn anabl, a daeth astudiaeth yn Norwy o blant a oedd yn cael eu harchwilio mewn ysbytai pediatrig am arwyddion o gam-drin rhywiol posibl i gasgliadau tebyg⁷

Yn ystod gwyliau i ffwrdd o ysgol arbennig breswyl, dychwelodd plentyn adref a rhannodd wely gyda lojar gwrywaidd. Ar ôl dychwelyd i'r ysgol roedd yn arddangos newidiadau arwyddocaol yn ei ymddygiad ac roedd ganddo gleisiau. Eglurodd y fam fod arnynt angen y lojar am ei gyfraniad ariannol, ac mai ei mab oedd wedi achosi ei anafiadau ei hun yn ystod ffitiau epileptig. Nid oedd staff yr ysgol yn ystyried y gallai'r bachgen fod mewn perygl o gamdriniaeth rywiol ac ni wnaethant unrhyw atgyfeiriad o gwbl. Mynegodd nyrs yr ysgol bryder o ran bod 'rhannu gwely' â'r lojar yn 'amhriodol', ond nad oedd yn teimlo y gallai wneud unrhyw beth arall gan na fyddai modd i'r bachgen fynd adref fel arall. (Ffynhonnell: Y Gweithgor Cenedlaethol ar Amddiffyn Plant ac Anabledd. It doesn't happen to disabled children. NSPCC 2003)

- 4.10 Canfuwyd amharodrwydd i herio gofalwyr ynghyd ag empathi ymhlith ymarferwyr â rhieni a rhieni maeth y teimlir eu bod o dan straen sylweddol. Mae Precey a Smith⁸ wedi ystyried y mater cynhennus o rieni'n ffugio neu'n ysgogi salwch mewn plant anabl a'r rheiny sydd ag anghenion iechyd cymhleth. Mae'n hysbys i rieni fynd ati i orliwio effeithiau nam eu plentyn yn fwriadol drwy roi disgrifiad ffug o'i symptomau, ceisio triniaeth ddiangen neu ddefnyddio meddyginiaeth mewn modd amhriodol⁹

Gofynnodd ysgol leol i eiriolwr gamu i mewn oherwydd eu bod yn poeni fod plentyn yn cael gormod o feddyginiaeth gan eu teulu. Roedd yr ysgol wedi sylwi fod y rhieni'n cael trafferth i reoli ymddygiad y bachgen, ac ar ddechrau bob wythnos yn enwedig, roeddent yn gweld y bachgen yn gysglyd iawn ac yn ei chael yn anodd ymgysylltu â'r hyn oedd o'i gwmpas. Soniwyd wrth y gweithiwr cymdeithasol am hyn ond nid oedd yn barod i godi'r mater gyda'r teulu gan ddweud fod ganddynt ddigon i ymdopi ag o fel yr oedd hi. Yn y diwedd, llwyddodd yr eiriolwr i helpu'r rhieni i weld effaith rhoi gormod o feddyginiaeth i'w plentyn a cheisiodd gyngor i'r rhieni ynghylch rheoli ymddygiad eu mab (Ffynhonnell: Cymdeithas y Plant)

- 4.11 Dibyniaeth ar rwydwaith eang o ofalwyr ac oedolion eraill yw profiad dydd i ddydd rhai plant anabl fel y gellir diwallu eu hanghenion meddygol a gofal personol fel ymolchi a defnyddio'r tolied. Mae'r nifer fawr o oedolion sy'n gysylltiedig, ynghyd â natur yr anghenion gofal, yn cynyddu'r risg o fod yn agored i ymddygiad camdriniol ac yn ei gwneud yn anoddach gosod a chynnal ffiniau corfforol.

Mae'n rhaid i ymholiadau amddiffyn plant a chynllunio ar gyfer gofal a chymorth ystyried y gall plentyn anabl fod yn ddibynnol ar gamdriniwr am ofal personol a/neu

am gymorth i gyfathrebu. Gallant fod yn llai abl i ddweud wrth rywun beth sy'n digwydd oherwydd y ddibyniaeth hon. (Ffynhonnell: Y Gweithgor Cenedlaethol ar Amddiffyn Plant ac Anabledd. It doesn't happen to disabled children NSPCC 2003)

- 4.12 Mae rhwystrau cyfathrebu yn golygu bod llawer o blant anabl, gan gynnwys plant byddar, yn cael anawsterau o ran rhoi gwybod am bethau sy'n eu poeni, yn eu pryderu neu ynghylch camdriniaeth. Nid oes gan rai plant anabl fynediad i'r iaith briodol i allu datgelu camdriniaeth; bydd eraill heb fynediad at ddulliau o gyfathrebu a/neu bobl sy'n deall eu dull o gyfathrebu. Hyd yn oed os gall plentyn ddod o hyd i'r hyder a'r modd i roi gwybod am gamdriniaeth, ni fydd llawer o'r ffynonellau cymorth sydd ar gael i blant sy'n cael eu cam-drin, fel llinellau cymorth dros y ffôn a chwmsela yn yr ysgol, yn anhygyrch i lawer o blant anabl. Mae plant sy'n defnyddio dulliau amgen o gyfathrebu, ac sydd ag ychydig iawn o bobl y gallant ddweud pethau wrthynt, yn arbennig o agored i niwed, gan efallai mai'r un bobl y dylent allu dibynnu arnynt sy'n eu cam-drin. Yn aml, ceir diffyg mynediad at hwyluswyr annibynnol neu bobl sy'n gyfarwydd â dull cyfathrebu plentyn.
- 4.13 Gall diffyg cyfranogiad a dewis o ran gwneud penderfyniadau amddifadu plant o'u pwerau a'u gwneud yn fwy agored i niwed, fel y gall methiant i holi plant anabl am eu profiadau a gwrando arnynt. Gall plant anabl fod wedi dysgu, oherwydd y modd y cânt eu gofalu amdanynt a'u profiadau ehangach, i gydymffurfio ac i beidio â chwyno. Casgliad Morris¹⁰ oedd nad yw preifatrwydd plant anabl yn cael ei barchu ac nad oes ychwaith unrhyw anogaeth iddynt wneud dewisiadau drostynt eu hunain, gyda hynny yn ei dro yn tanseilio eu cyfleoedd i ddatblygu hyder a hunan-barch
- 4.14 Gall ffactorau a gysylltir â namau arwain at fod yn fwy agored i gamdriniaeth. O ran ymddygiadau sy'n arwyddion o gamdriniaeth, fel hunan-niweidio ac ymddygiadau ailadroddus, gellir eu camddehongli fel rhan o nam neu gyflwr iechyd plentyn.¹¹ Mae'n hollbwysig fod gweithwyr proffesiynol yn cael hyfforddiant digonol a'u bod yn effro i adnabod arwyddion o gamdriniaeth posibl neu newidiadau mewn plant, a all fod yn arwydd fod rhywbeth o'i le, ac i ddeall ymddygiadau arbennig sy'n gysylltiedig â namau. Gweler Adran 2 am ragor o wybodaeth am ddangosyddion posibl camdriniaeth ac esgeulustod.

Cafodd mastyrbio parhaus bachgen saith oed yn ei 'egluro' gan ei awtistiaeth, ac i ddechrau cafodd ei ymdrechion i gyffwrdd oedolion mewn modd rhywiol eu priodoli i'w ddryswch ynghylch ffiniau. Nifer o flynyddoedd ar ôl hynny, dyfarnwyd fod ei dad yn euog o ymosod yn rhywiol ar bob un o'r tri phlentyn yn y teulu. (Ffynhonnell: Triangle)

- 4.15 Mae'r ffaith eu bod wedi'u hynysu rhag plant ac oedolion eraill yn golygu bod llawer o blant anabl yn ei chael yn anodd dros ben i ddweud wrth eraill am eu profiadau gan ei gwneud yn haws i'w camdriniaeth ac esgeulustod aros yn gudd. Gall bod ag ychydig iawn o gysylltiadau y tu allan i'r cartref, ynghyd â gwasanaethau cymorth annigonol wedi'u cydlynu'n wael ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd, gynyddu'r arwahanrwydd.

Mae'r Gweithgor Cenedlaethol ar Amddiffyn Plant ac Anabledd yn nodi efallai

nad yw plant anabl (ac eraill sy'n agos atynt) yn cyfathrebu ynghylch camdriniaeth oherwydd yr ofn y byddant yn colli'r gwasanaethau y maent yn ddibynnol arnynt (NSPCC, 2003¹⁹)

Ymwelwyd â merch ddwy ar bymtheg oed ar wahanol adegau o'r diwrnod ac ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos gan ei heiriolwr. Ar bob achlysur, cafwyd y ferch mewn ystafell ddydd heb fawr o bethau ynnddi, yn eistedd ar ei phen ei hun gyda thwmpath o frics Lego ar hambwrdd o'i blaen. Pan heriwyd y staff ynghylch hyn, dangosodd y staff amserlen weithgareddau i'r eiriolwr. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw dystiolaeth fod unrhyw weithgareddau eraill yn digwydd, nid oedd gan y ferch ifanc unrhyw ddewis ac nid oedd yn gallu disgrifio unrhyw bethau eraill yr oedd wedi'u gwneud, lleoedd yr oedd wedi ymweld â hwy na phobl a oedd wedi ymweld â hi. (Ffynhonnell: Cymdeithas y Plant)

4.16 Mae llawer o blant anabl o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig a phlant sy'n ffoaduriaid ac yn ceisio lloches yn wynebu gwahaniaethu deublyg. Gallant brofi anawsterau a heriau ychwanegol o ran cael mynediad at wasanaethau, ac yn aml nid yw'r gwasanaethau hynny y maent yn eu derbyn yn sensitif i'w diwylliant a'u hiaith neu'n berthnasol i'w hanghenion. Mae Robert a Harris¹³ yn tynnu sylw at y risg i blant o deuluoedd sy'n ffoaduriaid ac yn ceisio lloches o ran eu bod yn dioddef arwahanrwydd difrifol a'u bod yn cuddio eu nam o ganlyniad i ofn bod yn wahanol, neu y bydd hynny'n yn cael effaith niweidiol ar eu statws fel mewnfudwyr. Mae plant a phobl ifanc anabl yn arbennig o agored i briodasau dan orfod oherwydd eu bod yn aml yn ddibynnol ar eu teuluoedd am ofal, efallai fod ganddynt anawsterau cyfathrebu, a gall fod ganddynt lai o gyfleoedd i ddweud wrth rywun y tu allan i'r teulu am yr hyn sy'n digwydd iddynt. Hwyrach fod rhieni eisiau dod o hyd i ofalwr ar gyfer eu plentyn yn y dyfodol, neu eu bod o dan bwysau i ddilyn arferion diwylliannol. Nid oes gan rai pobl ifanc anabl y capasiti i gydsynio i briodi. Efallai na fydd rhai'n gallu cydsynio i gyflawni'r briodas - mae cyfathrach rywiol heb gydsyniad yn drais rhywiol.

Ganwyd Nina'n ddall, a phan roedd yn 16 oed roedd hi'n dal i ddioddef anymataliaeth ac nid oedd ganddi unrhyw deimlad yn ei bysedd na'i thraed. Bryd hynny, roedd yn mynychu ysgol leol gyda chymorth gan gynorthwyydd dosbarth a oedd yn rhoi cymorth i blant a chanddynt nam ar y golwg. Yn ystod sesiwn un-i-un, datgelodd Nina i'r cymhorthydd ei bod yn mynd i Bacistan i gael ei gorfodi i briodi. Eglurodd nad oedd eisiau mynd na phriodi, a gofynnodd am help. Trefnodd y cynorthwyydd i'r heddlu lleol gyfarfod Nina ar ei ffordd adref. Unwaith eto, dywedodd nad oedd eisiau priodi a'i bod eisiau cymorth. Trefnodd y swyddog heddlu iddi gael mynd i lety ar gyfer pobl ifanc a chanddynt anabledau. Arhosodd Nina yng ngofal yr awdurdod lleol am sawl mis, a dechreuodd gael cysylltiad gyda'i theulu unwaith eto. Yn y diwedd, fe'i perswadiwyd i ddychwelyd adref ac, er gwaethaf ei phrotestiadau blaenorol, cytunodd i fynd gyda hwy i Bacistan. Hysbyswyd yr heddlu'n ddiweddarach ei bod wedi marw o ganlyniad i "wenwyn bwyd" ac fe'i claddwydym Mhacistan. (Ffynhonnell: The Forced Marriage Unit)

Lleolwyd bachgen tair ar ddeg oed a oedd yn siarad Arabeg, yr oedd ei rieni o

Somalia, mewn ysgol arbennig breswyl. Pan ymwelodd eiriolwr ag ef am y tro cyntaf, daeth yn amlwg nad oedd yn cael unrhyw gyfle i arfer ei grefydd Fwslimaidd ac ni wnaed unrhyw ymdrech i ddiwallu ei anghenion dietegol diwylliannol. Roedd ei ymdeimlad o arwahanrwydd oddi wrth ei deulu a'i ddiwylliant yn ddwys. Fe aeth ei eiriolwr ati ar unwaith i atgyfeirio'r bachgen i gael ymwelydd annibynnol a oedd yn siarad Arabeg. (Ffynhonnell: Cymdeithas y Plant

- 4.17 Mae treulio cyfnodau hirach o amser oddi cartref, yn enwedig mewn lleoliadau preswyl, yn ffactor risg ar gyfer camdriniaeth, a nododd Utting¹⁴ fod y risg hwn yn cael ei ddwysau yn achos plant anabl. Mae ymchwilyr¹⁵ wedi archwilio'r modd y mae plant anabl yn agored i niwed mewn gofal preswyl, gan gysylltu hyn â nodweddion bywyd sefydliadol, problemau o ran rheolaeth a staffio, a gwahanu plant oddi wrth eu rhieni a rhai eraill y maent yn ymddiried ynddynt ac sy'n gallu deall eu dulliau o gyfathrebu. Mae lles plant anabl mewn ysgolion preswyl (yn enwedig y rheiny sy'n cael darpariaeth am 52 wythnos) ac mewn unedau iechyd wedi cael ei gwestiynu o ystyried yr amrywiaeth eang mewn arferion o ran hysbysu'r awdurdod lleol cyfrifol am leoliad y plentyn.

Ar ymweliad â bachgen anabl yn ei arddegau a oedd mewn gofal preswyl, gofynnodd eiriolwr am gael mynd â'r dyn ifanc allan i barc lleol. Dywedwyd wrtho y byddai'n rhaid i ddau aelod o'r staff gofal fynd gydag ef. Cafodd y dyn ifanc ei strapio wrth ei ddwy fraich i'r aelodau staff, y rhesymeg oedd y byddai'r dyn ifanc yn ceisio rhedeg i ffwrdd. O ymchwiliadau pellach gan yr eiriolwr, daeth yn hysbys bod yr arfer hwn wedi parhau am flynyddoedd lawer heb ei adolygu. Fe aeth yr eiriolwr ati i herio'r dull hwn, ac ar ôl cryn ddyfalbarhad, caniatwyd i'r dyn ifanc gael ymweld â'r parc gyda'i eiriolwr heb gael ei strapio'n sownd wrth unrhyw un. (Ffynhonnell: Cymdeithas y Plant)

- 4.18 Gall arferion o fewn y System Cyfiawnder Ieuenctid greu rhwystrau yn ystod ymchwiliadau amddiffyn plant mewn perthynas â phlant anabl. Yn y gorffennol, prin iawn y byddai tystiolaeth gan blant anabl yn cael ei chyflwyno mewn llys oherwydd bod y rheiny sy'n ymwneud ag ymchwilio i honiadau'n aml yn tybio na fyddai plant anabl yn gallu rhoi tystiolaeth gredadwy mewn achos troseddol. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos yn glir y gall plant sydd ag anabledau dysgu ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol yn forensig, os defnyddir dulliau priodol.

Roedd rhiant maeth bachgen tair ar ddeg oed a chanddo anhwylder sbectrwm awtistig, yn ystod ymweliad adref o ysgol breswyl, wedi sylwi ar gleisiau ar ei gorff a llygad ddu, ac ar achlysur arall, ei fod wedi torri asgwrn yn ei law. Nid oedd gan yr ysgol unrhyw gofnod o unrhyw anafiadau ac ni ddarparwyd eglurhad ynghylch sut yr oedd wedi eu cael. Roedd ei riant maeth yn credu y gallai'r plentyn ddangos sut yr oedd wedi cael ei anafu. Fodd bynnag, gan nad oedd y plentyn yn gallu cyfathrebu ar lafar, ni chymerwyd datganiad tyst. (Ffynhonnell: Y Gweithgor Cenedlaethol ar Amddiffyn Plant ac Anabled. It doesn't happen to disabled children. NSPCC, 2003)

Cafodd bachgen pymtheg oed mewn lleoliad preswyl ei daro gan aelod staff a datgelodd hyn i aelod staff arall. Cysylltwyd â'r Awdurdod Lleol, yr heddlu ac eiriolwr y bachgen, ac fe gafodd yr aelod staff dan sylw ei symud o'i swydd tra cynhaliwyd yr ymchwiliad. Roedd yr eiriolwr a'r staff yn y cartref wedi rhoi gwybod i'r heddlu am

ddull cyfathrebu'r dyn ifanc a'r angen i baratoi ymlaen llaw. Gofynnwyd i'r eiriolwr fynd gyda'r dyn ifanc i'r cyfweliad. Daeth yn amlwg ar unwaith nad oedd unrhyw waith paratoi wedi'i wneud, ac ni chynhaliwyd y cyfweliad mewn modd a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn. O ganlyniad, nid oedd modd i'r heddlu gael adroddiad llawn am y digwyddiad gan yr unigolyn ifanc. Rhoddodd yr eiriolwr adborth i'r heddlu am y modd amhriodol y cynhaliwyd y cyfweliad. Yn y diwedd, nid aethpwyd â'r achos ymhellach. (Ffynhonnell: Cymdeithas y Plant)

- 4.19 Mae prinder rhaglenni diogelwch personol ynghyd ag addysg bersonol, gymdeithasol ac addysg ryw ar gyfer pobl ifanc anabl, yn golygu eu bod yn llai ymwybodol o ymddygiad camdriniol ac yn llai abl i gyfathrebu ynghylch camdriniaeth. Adroddodd Oosterhoon a Kendrick16 ynghylch yr heriau ar gyfer staff dysgu o ran addysgu am gysyniadau haniaethol, addysg ryw a chamdriniaeth. Mae rhai deunyddiau codi ymwybyddiaeth a chadw plant yn ddiogel yn seiliedig ar ragdybiaethau am alluoedd plentyn, megis 'dweud na, rhedeg a dweud', a gallant fod yn fod yn wrthgynhyrchiol yn achos plant anabl. Mae dibyniaeth rhai plant ar eraill am ofal personol yn gofyn am deilwra'r addysg i ddiwallu anghenion y plentyn, gan ganolbwyntio er enghraifft ar fathau priodol ac amhriodol o gyffwrdd
- 4.20 Canfuwyd lefelau uwch o fwlio plant anabl mewn nifer o astudiaethau diweddar, ac mewn rhai achosion, gellir ystyried difrifoldeb y bwlio neu aflonyddu plant anabl fel ymosod neu gamdriniaeth. Gall y profiad o, neu'r disgwyliad y byddant yn cael eu bwlio siapio sut y mae unigolyn ifanc yn gweld eu hunain a siapio eu perthnasoedd cymdeithasol a gall gael effaith andwyol a niweidiol ar eu hunan-barch, eu hiechyd meddwl, eu sgiliau cymdeithasol a'u cynnydd yn yr ysgol. I rai plant anabl, gall bwlio fod yn bwysau cudd a di-baid sy'n dominyddu eu bywydau ac yn gwneud iddynt deimlo'n isel ac yn dawedog. Gall y diffyg hunan-barch sy'n datblygu yn sgil bwlio ynddo'i hun wneud plant anabl yn fwy agored i gamdriniaeth.

Roedd merch ddeuddeg oed a chanddi anabledau dysgu wedi cael ei bwlio'n gorfforol am dros dri mis cyn i unrhyw un weithredu, er y rhoddwyd gwybod i'r rhieni a'r athrawon o'r dechrau. 'Byddai'n fy ngwthio ac yn rhegi arnaf, yn dweud pethau cas ac yn cerdded tuag ataf ac yn fy slapio'. (Ffynhonnell: Biwro Cenedlaethol y Plant, Bullying and Disability Spotlight Briefing 2007)

- 4.21 Mae mwy o ddefnydd o daliadau uniongyrchol a chyllidebau personol yn grymuso pobl ac yn rhoi dewis iddynt, ond hefyd yn peri rhai risgiau y bydd plant yn cael eu niweidio os nad yw'r gofynion sylfaenol perthnasol i gynnal gwiriadau a gofyn am eirdaon ar gyfer y rhai a fydd yn darparu'r gofal hwnnw yn cael eu diwallu
- 4.22 Ni all yr awdurdod lleol fynnu y dylai'r unigolyn a gyflogir drwy Daliadau Uniongyrchol fod wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn ei gyflogi
- 4.23 Mae gofyn am wiriad DBS, ynghyd â mynd ar drywydd geirdaon, er nad ydynt yn gwarantu fod rhywun yn addas i weithio gyda phlant, yn cynnig peth sicrwydd o ran addasrwydd gofalwr i wneud gwaith o'r fath
- 4.24 Mewn sefyllfaoedd lle mae'r teulu'n penderfynu nad ydynt am dderbyn cyngor yr

awdurdod lleol o ran arfer orau, mae rhai awdurdodau lleol yn gofyn i'r teulu arwyddo datganiad yn dweud eu bod wedi trafod y mater â hwy a'u bod yn ymwybodol o'r risg cysylltiedig. Nid yw datganiadau o'r fath wrth gwrs yn rhyddhau'r awdurdod lleol rhag ei ddyletswydd i ddiogelu lles plant.

5. Cyfeiriadau

1. Sullivan, P. Vernon, M a Scanlan, J. (1987) *Sexual Abuse of Deaf Youth*. *American Annals of the Deaf*, 1, t256-262.
2. Kennedy, M. (1989) *The abuse of deaf children*. *Child Abuse Review*, 3 (1), t3-7; Wescott H.L (1993) *The Abuse of Children and Adults with Disabilities*. NSPCC. Llundain; Spencer, N., Devereux, E., Wallace, A., Sundrum R., Shenoy, M., Bacchus,
3. C. a Logan, S. (2005) *Disabling Conditions and Registration for Child Abuse and Neglect: A Population-Based Study*. *Paediatrics*, 116, t609-613.
4. Morris, J. (1999) *Disabled Children, Child Protection Systems and the Children Act 1989*. *Child Abuse Review*, 8, t91- 108.
5. Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Gardner R., Sidebotham, P., Dodsworth, J., Warren, C., Black, J. (2009) *Understanding Serious Case Reviews and their Impact: A Biennial Analysis of Serious Case Reviews 2005-07*. Adroddiad ymchwil DCSF, DCSF- RR129
6. Pinney, A. (2005) *Disabled children in residential placements*. Ar gael i'w lawrlwytho o:[Practice Review](#)
7. Kennedy, M. (1992a) *Children with Severe Disabilities: Too Many Assumptions*. *Child Abuse Review*, 1, t185-187.
8. Kvam, M. (2000) *Is sexual abuse of children with disabilities disclosed? A retrospective analysis of child disability and the likelihood of sexual abuse among those attending Norwegian Hospitals*. *Child Abuse and Neglect*, 24, t1073-1084.
9. Precey, G. a Smith, K. (2004) *The Fabrication or Induction of Illness in Children with Complex Needs: Views from Practice*. *Practice*, Cyfrol 16, 4, t283-297.
10. Llywodraeth Ei Mawrhydi (2008) *Safeguarding Children in whom illness is fabricated or induced: Supplementary guidance to Working Together to Safeguard Children*. Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. tes
11. Morris (1998) *Still Missing? Vol 1. The Experiences of Disabled Children Living Away from their Families*. Who Cares? Trust. Llundain.
12. Wescott H. L a Jones D.P.H. (1999) *Annotation: The Abuse of Disabled Children*. *Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 40, t497 – 506.
13. National Working Group on Child Protection and Disability, Ed. Morris, J. (2003) *It Doesn't Happen to Disabled Children: Child Protection and Disabled Children*. NSPCC. Llundain.
14. Robert, K. a Harris, J. (2002) *Disabled people in refugee and asylum seeking communities*. Bryste: The Policy Press.
15. Utting, W. (1997) *People Like Us: The Report of the Review of Safeguards for Children Living Away from Home*. HMSO Llundain.
16. Paul, A. a Cawson, P. (2002) *Safeguarding Disabled Children in Residential Settings: What We Know and What We Don't Know*. *Child Abuse Review*, Cyfrol 11, t262-281.
17. Oosterhoorn R a Kendrick A (2001) *No Signs of Harm: Issues for Disabled Children Communicating about Abuse*. *Child Abuse Review*, Cyfrol 10, t243 253.